## P-05-1139 Dylid ymestyn rhyddhad treth stamp yn dilyn cyhoeddi rhagor o gyfyngiadau symud

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Andrew Oliver, ar ôl casglu cyfanswm o 79 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:

Ers atal y dreth stamp dros dro yng Nghymru, gwelwyd hwb i'r economi a chynnydd mewn trafodion eiddo. Drwy ymestyn y rhyddhad hwn a dod â'r trefniant i ben yn raddol, gellid osgoi cwymp disymwth yn y farchnad eiddo, fel sy'n debygol o ddigwydd os daw'r cymorth rhyddhad i ben yn sydyn. Efallai y gallai Llywodraeth Cymru ystyried trefnu bod y rhyddhad yn gymwys i unrhyw drafodion lle cafodd contractau eu cyfnewid cyn 31 Mawrth 2021, gan ganiatáu i unrhyw drafodion sydd eisoes yn yr arfaeth gael eu cwblhau o dan y trefniadau manteisiol.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**

- Canol Caerdydd
- Canol De Cymru